OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 248 (Cy.41)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*1 Chwefror 2012*
Gosodwyd gerbron CynulliadCenedlaethol Cymru	*2 Chwefror 2012*
Yn dod i rym - -	*24 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 2 Chwefror 2012.

Diwygio'r Rheoliadau

2. Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 5, yn lle paragraff (1) rhodder—

> "(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y flwyddyn ysgol 2011—2012 sy'n cael ei neilltuo (yn llwyr neu yn bennaf) i wella safonau dysgu neu arferion rheoli staff yn yr ysgol gyda'r bwriad o wella neu asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn ysgol a gynhelir.".

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr "regulations" a "prescribed" gweler adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy.311); fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy.119), O.S. 2008/1739 (Cy.171) ac O.S. 2011/149 (Cy.33).